Taith arfordirol – 4 milltir

Ynys Barri, Porthgain i Abereiddi

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST
Supported by RIAS

Mwynhewch rai o olygfeydd arfordirol gwychaf Sir Benfro wrth fforio ei gorffennol diwydiannol. Byddai porthladd pysgota bychan Porthgain yn arfer allforio cerrig ffyrdd ledled y DU, ac yr oedd Morlyn Glas enwog Abereiddi'n hen chwarel lechi unwaith. Mae Ynys Barri yn gartref hefyd i amrywiaeth ffantastig o fywyd gwyllt... fyddwch chi'n ddigon lwcus i weld brân goesgoch ar eich taith!?

Cychwyn: Porthgain – OS Landranger 157 & map Explorer OL 35 – cyf. Grid SM816325

Sut i fynd yno a chyfleusterau lleol

Ar Lwybr Arfordirol Sir Benfro rhwng Tyddewi ac Abergwaun . Mae'r Llwybr Celtaidd, llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, yn mynd ar hyd lonydd distaw hanner milltir i fwrdd oddi wrth y draethlin yma. Mae bws Strumble Shuttle â gwasanaeth rheolaidd i Abereiddi a Phorthgain o Dyddewi ac Abergwaun (ger #) yn yr haf a gwasanaeth llai rheolaidd yn y gaeaf. Yn y car, trowch oddi ar yr A487 yn y Groes Goch, a dilyn yr arwyddion i Lanrhian. Toiledau a maes parcio ym Mhorthgain ac Abereiddi. Tafarn, caffi, siopau ac oriel gelf ym Mhorthgain.

Pethau i'w gweld...

Porthgain

Heddiw mae'n bentref tlws sy'n enwog am ei dafarn, ei gaffi a'r orielau, ond fe wnaethpwyd brics yma hyd at 1912, ac fe allforiwyd cerrig ffyrdd gwenithfaen mewn cychod i bob rhan o'r DU hyd at 1931. Mae pâr o bileri gwyn yng ngheg yr harbwr yn cael eu defnyddio fel marcwyr i gychod bach.

Morlyn Glas a Thraeth Abereiddi

Hen chwarel lechi wedi ei boddi yw'r 'Morlyn Glas' ysblennydd yn Abereiddi. Daeth y cloddi i ben oddeutu 1910 ac fe ddisgynnodd y morglawdd yn fuan wedyn, gan ganiatáu i'r môr ddod i mewn. Rhedai tramffordd o'r chwarel lechi i'r harbwr ym Mhorthgain: gellir gweld y trac hyd heddiw. Mae Traeth Abereiddi'n draethlin garegog fendigedig ar gyfer gweld ffosiliau. Ond, mae'n erydu'n sydyn ar hyn o bryd oherwydd yr amddiffynfeydd morol diffygiol.

Golygfeydd ffantastig

Brigiad caregog arfordirol garw o greigiau folcanig yw Ynys Barri wedi ei fframio gan ddyffryn corsiog a gerfiwyd yn yr Oes Iâ diwethaf. Mae'n cynnig panorama ardderchog i Strumble Head gyda'i oleudy yn y gogledd ddwyrain a chopaon Pen Beri a Charn Llidi (ar Drwyn Tyddewi) i'r gogledd orllewin.

Tŷ Mawr yw'r adeilad blaendir yma; roedd unwaith yn sied gwneud brics. Mae hopranau brics coch anferth yn rhoi cefndir dramatig i'r harbwr bychan. Storiwyd cerrig ffordd gwenithfaen wedi eu mathru ynddynt cyn ei lwytho ar gychod a'i gludo ar draws y DU.

© NT / Nicky Middleton-Jones

Gellir gweld y frân goesgoch yn chwyrlïo uwchben y clogwyni ar awelon y môr ar hyd arfordir Sir Benfro unrhyw adeg o'r flwyddyn. Maent yn perthyn i deulu'r frân ond mae ganddynt bigau a choesau coch llachar. Edrychwch i'r alltraeth am adar y môr fel y fulfran wen ac, os byddwch chi'n lwcus iawn, podiau o'r llamhidydd.

© NT / Nature Conservation

Morlyn Glas Abereiddi - efallai y gwelwch chi bobl i lawr yno gan ei fod yn lle ardderchog i ddeifio a 'coasteering'. Mae adfeilion adeiladau chwarel yn clwydo ar ymylon y clogwyni a gellir gweld gweddillion bythynnod y gweithwyr y tu cefn i'r maes parcio.

© NT / David Sellman

Llwybr a chyfarwyddiadau

2. Cerddwch ar hyd ochr ddeheuol harbwr Porthgain o dan yr hopranau brics. I gyrraedd llwybr yr arfordir, dringwch risiau wrth ymyl adeilad gwyn. Cymerwch amser i fforio gweithfeydd y chwarel wenithfaen.
3. Ar droad siarp y llwybr i'r chwith ar gornel cae daw'r tŵr uwchlaw Abereiddi i'r golwg. Cadwch at lwybr yr arfordir ar hyd adran ddramatig iawn o glogwyni uchel.
4. Mae grisiau oddi yma yn arwain i lawr at y traeth bychan yn Nhraeth Llyfn. Yn ddiarffordd ac anghysbell, caiff y lan ei orchuddio'n gyfangwbl gan y llanwau uchaf. Ceir cerrynt terfol cas yma weithiau felly nid yw'n addas ar gyfer trochi, dim ond cestyll tywod a throchi traed.
5. Mae llwybr yr arfordir yn mynd ymlaen dros laswelltir agored i Abereiddi. Dylid cymryd gofal mawr wrth i chi ddynesu at y Morlyn Glas. Mae'r golygfeydd yn ysblennydd ond mae dibyn y clogwyn yn ddisymwth. Mae'r llwybr yn dilyn y clogwyni cyn nadreddu i lawr tuag at draeth Abereiddi.

Ewch ar fws y Strumble Shuttle i Borthgain, Tyddewi neu Abergwaun, neu daliwch i gerdded i'r mewndir ar daith gylchol yn ôl i'r man cychwyn...

6. Cerddwch tuag at y maes parcio a'r toiledau. Dilynwch saethau melyn y llwybr i fyny llethr byr ac ymunwch â llwybr glaswelltog llydan sy'n arwain i'r mewndir. Oddi yma fe gewch olygfeydd braf i fyny'r dyffryn tuag at Lanrhian; fe'i cerfiwyd gan ddŵr toddi yn ystod yr Oes Iâ diwethaf. Mae'n mynd yn ei flaen am ddwy filltir allan i'r môr ar hyd gwely'r môr!
7. Dringwch dros gamfa; torrwch ar draws gornel y cae ac anelu dros gamfa arall ger twmpath o gerrig. Dilynwch drac llydan i'r dwyrain i Fferm Ynys Barri.
1. Dilynwch y trac hwn i lawr i'r ffordd a chroeswch i'r ochr arall, dringwch risiau llechi serth i mewn i gae. Cerddwch yn syth ar draws y cae a thros gamfa ac ar hyd y gwrych i giât mochyn. Dilynwch y llwybr hwn yn ôl i Borthgain.



© Reproduced by permission of Ordnance Survey.
All rights reserved.
OS licence no. AL 100018591

As a charity, independent of government, the National Trust relies on the generosity of its supporters to continue caring for our countryside and wildlife, so that everyone can enjoy the beauty of the outdoors for generations to come.

Find out more at www.nationaltrust.org.uk